Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a Phrif Chwip
Cc Carwyn Jones AC, Prif Weinidog; a
Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid

12 Rhagfyr 2017

Annwyl Julie

# Ymchwiliad i hawliau dynol yng Nghymru

Gwyddoch fod y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn cynnal ymchwiliad i hawliau dynol yng Nghymru. Ers dechrau arno, mae'r Pwyllgor wedi culhau cwmpas yr ymchwiliad i ganolbwyntio ar effaith Brexit ar hawliau dynol.

Yn ei gyfarfod ar 19 Hydref bu'r Pwyllgor yn ystyried y trafodaethau ar ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, a chlywsom gan Rebecca Hilsenrath, Prif Weithredwr y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Cytunodd y Pwyllgor ar gyfres o egwyddorion craidd y credwn y dylid cydymffurfio â nhw yn ystod y broses Brexit mewn perthynas â hawliau dynol. Byddwn yn monitro cynnydd yn ôl yr egwyddorion hyn a byddwn yn chwilio am gyfleoedd i weithio gyda'n pwyllgorau seneddol cyfatebol ar draws y DU ar y materion hyn.

Yr egwyddorion craidd yw:

- ni fydd unrhyw atchweliad i'r amddiffynfeydd cydraddoldeb a hawliau dynol sydd gennym yma ym Mhrydain ar ôl i ni adael yr UE;
- dylai Cymru sefydlu mecanwaith ffurfiol i olrhain datblygiadau yn y dyfodol o ran hawliau dynol a chydraddoldeb yn yr UE, i sicrhau bod dinasyddion Cymru yn elwa o'r un lefel o ddiogelwch â dinasyddion yr UE; a

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCymunedau@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCymunedau
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCommunities@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCommunities
0300 200 6565

- dylai Cymru barhau i fod yn arweinydd byd-eang ym maes hawliau dynol, ac ymrwymo i gyflwyno deddfwriaeth i gau unrhyw fylchau o ran hawliau ac amddiffyniad os nad yw Llywodraeth y DU yn gwneud hynny (lle bo modd).

Rydym o'r farn bod yn rhaid cadw'r Siarter Hawliau Sylfaenol mewn rhyw ffurf ar ôl ymadael â'r UE. Croesawn y datganiad a wnaed gan y Prif Weinidog ar 24 Hydref[1] a oedd yn cefnogi'r ymdrechion i sicrhau y bydd Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) yn parhau i barchu'r Siarter ar ôl Brexit. Rydym hefyd yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth y DU i gyhoeddi'r dadansoddiad o sut y bydd hawliau'r Siarter yn cael eu diogelu ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

I gynorthwyo i lywio ein gwaith, byddem yn ddiolchgar pe bai modd i chi ddarparu:

- unrhyw ddadansoddiad sydd ar gael ar y lefel bresennol o arian yr UE sy'n ariannu prosiectau'n ymwneud â hawliau dynol yng Nghymru;
- gwybodaeth am y gwaith a wnaed hyd yma i ystyried ffynonellau arian eraill ar gyfer y prosiectau hyn;
- y wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau gyda Llywodraeth y DU, yn arbennig yn ymwneud â hawliau dynol a chydraddoldeb; a
- gwybodaeth am unrhyw drafodaethau yr ydych wedi'u cael â'r UE am warchod hawliau dynol yn ystod y broses o ymadael â'r UE, ac wedi hynny.

Rydym hefyd wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU, ac at ein pwyllgorau cyfatebol ar draws y Deyrnas Unedig am y mater hwn.

Edrychwn ymlaen at glywed gennych maes o law, a byddaf yn ddiolchgar am ymateb erbyn **dydd Gwener 26 Ionawr 2018**.

Yn gywir

---

[1] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Cyfarfod Llawn, Eitem 3, 11 Hydref 2016

John

John Griffiths AC
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.